



## Llythyr gan Esgob Tyddewi

### Hydref 2026

Annwyl Chwirydd a Brodyr yng Nghrist,

Gras a thangnefedd i chwi oll.

Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn myfyrio ar ddysgeidiaeth Iesu am weddi. Nid yw gweddi yn un rhan o'n gweinidogaeth yn unig; hi yw calon ein gweinidogaeth. Gwelwn Iesu yn gweddio ar ei ben ei hun ac yn gweddio gyda'i ddisgyblion. Pan ofynnodd y disgyblion, "Arglwydd, dysg ni i weddio" (Luc 11:1), rhoddodd Iesu weddi a oedd yn dechrau gyda'r geiriau "Ein Tad". Mae gweddi yn rhywbeth personol a chymunedol.

Hoffwn annog, a dweud yn glir fy mod yn disgwyl, i glerigion pob Ardal Weinidogaeth Leol gyfarfod yn rheolaidd i weddio gyda'i gilydd. Lle bo hynny'n bosibl, hoffwn weld Darllenwyr Lleyg, Arweinwyr Addoli a'r rhai sy'n rhannu mewn arweinyddiaeth yn ymuno yn y ddisgyblaeth hon.

Nid cyfarfod arall yw hwn i'w ychwanegu at ddyddiadur prysur. Dyma sail ein gweinidogaeth. Cyn cynllunio, cyn trafod a chyn gwneud penderfyniadau, rhaid inni weddio.

Wrth weddio gyda'n gilydd, daw pethau cyffredin bywyd a gweinidogaeth i bresenoldeb Duw. Mae gwaith bugeiliol, cenhadaeth, cynlluniau a heriau lleol yn cael eu bendithio a'u gwneud yn sanctaidd drwy weddi.

Dywedir wrthym am yr Eglwys gynnar:

"Yr oeddent yn dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion a'r gymdeithas, yn torri bara ac mewn gweddïau." (Actau 2:42)

Roedd gweddi ar y cyd wrth galon bywyd yr Eglwys. Dylai fod felly heddiw hefyd.

Pan fyddwn yn gweddio gyda'n gilydd, mae ymddiriedaeth yn tyfu. Mae cyfeillgarwch a chydweithrediad yn dyfnhau. Mae gweledigaeth gyffredin yn dod yn gliriach. Mae gweddi yn agor y drws i sgwrs onest ac yn ein helpu i adnabod anghenion ein Hardaloedd Gweinidogaeth Lleol yng ngoleuni ewyllys Duw.



Mae'r Salmydd yn dweud:

"Wele mor dda a hyfryd yw byw o frodyr ynghyd mewn undod." (Salm 133:1)

Nid strwythurau na chynlluniau sy'n creu undod, ond bywyd a rennir yng Nghrist. Mae gweddi yn cryfhau'r undod hwnnw.

Mae tystiolaeth bwysig hefyd yn hyn. Mae angen i'n pobl wybod ein bod yn gweddio drostynt. Pan fyddant yn gwybod bod eu hofferiaid a'u harweinwyr yn eu dwyn yn ffyddlon gerbron Duw, mae hynny ynddo'i hun yn weithred fugeiliol o bwys mawr.

Addawodd Iesu:

"Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yr wyf fi yno yn eu canol." (Mathew 18:20)

Dyna addewid sy'n rhoi hyder inni. Nid ydym byth yn gweddio ar ein pennau ein hunain; mae Crist gyda ni.

Felly hoffwn ofyn dau gwestiwn syml i bob un ohonom:

Sut mae fy mywyd gweddi personol?

Sut mae fy mywyd gweddi gyda'm cydweithwyr mewn gweinidogaeth?

Mae'r ddau yn bwysig. Mae gweddi bersonol yn ein dwyn yn nes at Grist. Mae gweddi ar y cyd yn ein hatgoffa nad ydym yn gwasanaethu ar ein pennau ein hunain.

Ysgrifennodd Dietrich Bonhoeffer fod presenoldeb Cristnogion eraill yn ffynhonnell o lawenydd a chryfder mawr i'r credadun. Mae hynny'n wir am weddi hefyd. Wrth weddio gyda'n gilydd, mae Crist yn ein huno ac yn ein cryfhau.

Fy ngobaith yw y bydd pob Ardal Weinidogaeth Leol yn datblygu patrwm rheolaidd o weddio gyda'i gilydd. Boed hynny drwy Weddi Foreol, cyfarfodydd misol neu ffyrdd eraill sy'n addas yn lleol.

Mae'r heriau sydd o'n blaenau yn fawr, ond ni fyddwn yn dod o hyd i'r atebion yn unig drwy gynllunio, ail-strwythuro, nac adnoddau yn unig. Mae'r Eglwys wedi bod ar ei chryfaf pan yn ymarfer gweddi. Mae angen inni weddio.

Mae Sant Paul yn ein hannog: "Gweddiwch yn ddi-baid." (1 Thesalonïaid 5:17) ac eto yn annog credinwyr i fod yn 'ffyddlon mewn gweddi' (Rhufeinaid 12:12). Y mae'r geiriau hyn mor bwysig heddiw â phan cawsant eu hysgrifennu yn gyntaf.

Felly, gyfeillion annwyl, gadewch inni ailymrwymo ein hunain i weddi, yn breifat ac ar y cyd.



Gweddïwn dros ein gilydd, dros ein heglwysi, dros ein cymunedau, a'n cynnulleidfaoedd.  
Gadewch i ni weddio am dwf Teyrnas Dduw yn yr esgobaeth hon.

Wrth wneud hynny, bydded i'r Ysbryd Glân gryfhau ein cydberthnasau, gynyddu ein hymddiriedaeth, egluro ein gweledigaeth ac adnewyddu ein pwrpas cyffredin yng ngwasanaeth Crist.

Gyda phob bendith a sicrwydd o'm gweddïau,

*"Ymroddwch i weddi, gan fod yn wiliadwrus ac yn ddiolchgar."  
(Colosiaid 4:2)*

*"Nid oes dim yn fwy angenrheidiol na gweddi; dim yn fwy ffrwythlon."  
St John Chrysostom.*

A handwritten signature in black ink, reading 'Dorrien Tyddewi' with a cross symbol to the left.

Y Gwir Barchedig Dorrien Davies  
Esgob Tyddewi a Deon y Capel Brenhinol yng Nghymru



Llys Esgob, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG  
01267 236 597 - [bishop.stdavids@churchinwales.org.uk](mailto:bishop.stdavids@churchinwales.org.uk)